**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**1 EBRILL 2021**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod presenoldeb o bell ddydd Iau, 1 Ebrill 2021

**PRESENNOL: Y Cynghorydd Marion Bateman (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Sian Braun, Helen Brown, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dave Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin, Mike Peers, Ted Palmer, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Ian Roberts, Tim Roberts, Kevin Rush, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Andy Williams, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley

**YMDDIHEURIADAU:**
Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Derek Butler, Ray Hughes, Tudor Jones, Richard Lloyd a Tony Sharps

Prif Swyddogion Addysg ac Ieuenctid, Gwasanaethau Cymdeithasol a Strydwedd a Chludiant

**YN BRESENNOL:**
Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd ac Economi), Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Hwyluswyr Trosolwg a Chraffu, Arweinydd Tîm Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

## 71. SYLWADAU GAN Y CADEIRYDD

Yn unol â chais y Cadeirydd, cymerodd pawb a oedd yn bresennol ran mewn munud o dawelwch i gofio pawb a oedd wedi colli eu bywydau yn ystod y sefyllfa argyfwng.

## 72. CYDNABOD 25 MLYNEDD ERS SEFYDLU'R CYNGOR SIR Y FFLINT PRESENNOL

Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem i gydnabod a dathlu 25 mlynedd ers sefydlu Cyngor Sir y Fflint. Talodd deyrnged i bob un o'r 181 o Aelodau etholedig a oedd wedi gwasanaethu ar y Cyngor yn ystod y cyfnod hwn, yn enwedig y rhai oedd wedi marw.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Ian Roberts y Cynghorwyr Chris Bithell, Ron Davies, Dennis Hutchinson a Neville Phillips a oedd, fel ei hun, wedi llwyddo i wasanaethu'n barhaus ers 1995. Cydnabu gyfraniadau'r holl Aelodau etholedig,

Cadeiryddion, Arweinwyr a Phrif Weithredwyr, yn y gorffennol a'r presennol, yn ogystal â swyddogion a oedd wedi cynrychioli'r Cyngor.

Wrth dalu teyrngedau ar ran eu priod grwpiau, rhannodd y Cynghorwyr Mike Peers, Clive Carver a Chris Dolphin eu myfyrdodau eu hunain am y Cyngor dros y blynyddoedd.

Cafodd yr achlysur ei gydnabod hefyd gan y Prif Weithredwr a siaradodd ar ran swyddogion. Diolchodd i'r holl Aelodau etholedig presennol a blaenorol ynghyd â Chadeiryddion ac Arweinwyr yr oedd wedi gwasanaethu gyda hwy.

**73. COFNODION**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2021 fel cofnod cywir, fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr David Mackie a Chris Bithell.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2021 hefyd, fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Chris Bithell a Carolyn Thomas.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r ddwy set o gofnodion fel cofnod cywir.

**74. DATGANIAD O FUDDIANT**

Dim.

**75. CYFATHREBU'R CADEIRYDD**

Wrth gyflwyno ei chyfathrebiadau, canmolodd y Cadeirydd adeilad Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch (AMRC) Cymru ym Mrychdyn am gynhyrchu unedau awyru sy'n achub bywydau ar gyfer y GIG. Ar ran y Cyngor, llongyfarchodd dri derbynnydd Gwobr Tom Jones am Wirfoddoli Pobl Ifanc a phreswylydd o Sir y Fflint a oedd wedi dathlu ei phen-blwydd yn 105 oed. Cyfeiriodd hefyd at y gwasanaeth i nodi Canmlwyddiant cyflwyno Cofeb Rhyfel Sychdyn.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i gyhoeddi y byddai Katie Wilby yn olynu Steve Jones fel y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) a dymunodd yn dda iddi yn y rôl. Cymeradwywyd hyn gan y Prif Weithredwr a ddiolchodd i'r Aelodau a oedd wedi cymryd rhan yn y panel recriwtio.

**76. DEISEBAU**

Ni dderbyniwyd yr un ohonynt.

**77. ADOLYGIAD O'R PROTOCOL AR GYFER CWRDD Â CHONTRACTWYR**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad i adolygu'r Protocol oedd wedi ei ddiweddaru ac oedd yn rhoi arweiniad i aelodau yn eu hymwneud â

phartïon sy'n ceisio neu'n cymryd rhan mewn contractau gyda'r Cyngor. Argymhellodd yr adroddiad y dylid dileu rhannau o'r Protocol sy'n ymwneud â Chynllunio a'u hymgorffori yn y Cod Canllawiau Cynllunio. Roedd y newidiadau'n ystyried materion a godwyd gan y Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd yn ystod y broses ymgynghori.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Chris Bithell, dywedodd y Prif Swyddog y byddai'r Cod Canllawiau Cynllunio yn cael ei ddiweddaru i gynnwys darpariaethau perthnasol o'r Protocol, ynghyd â chyngor i Aelodau ar ymgynghoriadau cyn ymgeisio.

Ar ôl cyflwyno'r argymhellion, anogodd y Cynghorydd Ian Roberts yr Aelodau i ofyn am gyngor gan swyddogion Cyfreithiol os oedd ganddynt unrhyw ymholiadau.

Pan gyflwynwyd yr argymhellion i'r bleidlais, cawsant eu cario.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Diwygio'r rhannau o'r Protocol ar gyfer Aelodau yn eu hymwneud â Chontractwyr/Datblygwyr a Thrydydd Partïon Eraill sy'n ymwneud ag ymdrin â phartneriaid a allai fod yn gwneud cais neu'n chwilio am gontract gyda'r Cyngor, fel y dangosir yn yr atodiad i'r adroddiad; a

(b) Bod y rhannau o'r Protocol ar gyfer Aelodau yn eu Hymwneud â Chontractwyr/Datblygwyr a Thrydydd Partïon Eraill sy'n ymwneud â Chynllunio yn cael eu trosglwyddo i'r Cod Canllawiau Cynllunio (i'r graddau nad ydynt eisoes wedi eu hymgorffori ynddo) a bod y Cod Canllawiau Cynllunio yn cael ei ddiweddaru.

## 78. ADOLYGIAD O GYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad i nodi'r newidiadau statudol i'r Pwyllgor Archwilio sydd i'w gweithredu o fis Ebrill 2021. Byddai'r enw'n cael ei newid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gyda swyddogaethau ychwanegol i'w cynnwys yn y Cylch Gorchwyl. Byddai newidiadau pellach i gyfansoddiad y Pwyllgor a ailenwyd yn cael eu cyflwyno o fis Mai 2022.

Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Archwilio a Phwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd ar yr adroddiad. Cyflwynwyd ac eiliwyd yr argymhelliad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau hynny, y Cynghorwyr Chris Dolphin a Neville Phillips.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Richard Jones, cadarnhaodd y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog na fyddai unrhyw orgyffwrdd rhwng gwaith sy'n deillio o'r dyletswyddau newydd a rôl bresennol y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Tra mai rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oedd asesu effeithiolrwydd systemau, byddai'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn parhau i archwilio meysydd yn fanylach ac yn monitro perfformiad. Byddai materion sy'n peri pryder a godwyd gan y Pwyllgor Archwilio yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol; arfer a atgyfnerthwyd drwy grŵp cydgysylltu sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgorau hynny.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Mike Peers ynglŷn â'r gofyniad i aelod lleyg gael ei benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor a ailenwyd, cadarnhaodd y Prif Swyddog fod manylion cyswllt yr holl aelodau cyfetholedig ar gael yn fewnol. Eglurodd fod y ddeddfwriaeth yn caniatáu i Aelod etholedig gael ei benodi'n Is-gadeirydd y Pwyllgor a ailenwyd.

Ar ôl cael ei gyflwyno a'i eilio, cafodd yr argymhelliad ei gyflwyno i'r bleidlais a'i gario.

**PENDERFYNWYD:**

Bod enw diwygiedig Pwyllgor Archwilio'r Cyngor yn cael ei gydnabod a bod y swyddogaethau newydd a nodir yn y Ddeddf yn cael eu cynnwys yng Nghylch Gorchwyl presennol y Pwyllgor a ailenwyd.

## 79. DIWEDDARIAD AR WEITHREDU DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU 2021

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad i arfarnu'r Cyngor o weithrediad cyfredol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn dilyn yr eitem a dderbyniwyd ym mis Ionawr. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar weithredu'r tri Gorchymyn Cychwyn a gyflwynwyd erbyn mis Mai 2022. Ers cyhoeddi'r adroddiad, cynhyrchwyd yr Ail Orchymyn Cychwyn sy'n ymwneud â threfn perfformiad a llywodraethu newydd ar gyfer prif Gynghorau a'r Trydydd Gorchymyn Cychwyn yn dod â darpariaethau ar bresenoldeb ar gyfer cyfarfodydd a dogfennau Awdurdodau Lleol i rym. Byddai newidiadau pellach fyddai'n deillio o'r ddeddfwriaeth yn cael eu hadrodd i Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd a'r Cyngor Sir.

Cyflwynwyd ac eiliwyd yr argymhelliad gan y Cynghorwyr Ian Roberts a Carolyn Thomas.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Mike Peers, rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad byr ar yr amserlen ar gyfer yr Adolygiad o Ffiniau Sirol.

Soniodd y Cynghorydd Richard Jones am y drafodaeth ym mis Ionawr ar agweddau eraill ar y ddeddfwriaeth a phenderfyniad y Cyngor i beidio â chefnogi cynigion ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel y maent ar hyn o bryd. Dywedodd y Prif Weithredwr fod consensws rhanbarthol wedi arwain at oedi mewn gweithrediad er mwyn caniatáu mwy o waith ar fel y byddai Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gweithio. Byddai diweddariad ar y sefyllfa yn cael ei hadrodd i gyfarfod yn y dyfodol.

Ar ôl cael ei gyflwyno a'i eilio, cafodd yr argymhelliad ei gyflwyno i'r bleidlais a'i gario.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Cyngor yn nodi'r amserlen gweithrediad ac yn cydnabod y bydd adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno maes o law.

**80. PENODI AELODAU ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad ar ganlyniad y broses recriwtio ar gyfer dwy swydd wag Aelodau Annibynnol ar y Pwyllgor Safonau. Yn dilyn cyfweliadau, argymhellodd yr adroddiad y dylid penodi'r ymgeisydd y ffafrir (Gill Murgatroyd) gyda'r swydd wag sy'n weddill yn cael ei hysbysebu eto.

Cafodd yr argymhelliad ei gyflwyno a'i eilio gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Paul Johnson, a oedd ill dau wedi cymryd rhan yn y panel cyfweld.

Yn ôl cais y Cynghorydd Ian Dunbar, rhoddodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) eglurhad ar y broses ar gyfer penodi cynrychiolydd Cyngor Tref/Cymuned ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor.

Cafodd yr argymhelliad ei gyflwyno i'r bleidlais a'i gario.

**PENDERFYNWYD:**

Bod Gill Murgatroyd yn cael ei phenodi i'r Pwyllgor Safonau tan 31 Mawrth 2027.

**81. DEISEBAU A DDERBYNIWYD YN Y CYNGOR**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad blynyddol ar ganlyniadau a chamau gweithredu sy'n deillio o ddeisebau a gyflwynwyd i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Roedd yr adroddiad yn cynnwys ymatebion portffolio i'r ddwy ddeiseb a dderbyniwyd yn ystod 2020/21. Nodwyd bod y Cyngor yn gweithio gyda chydweithwyr ledled Cymru ar ddull cyson o ymdrin â deisebau electronig.

Cyflwynwyd ac eiliwyd yr argymhelliad gan y Cynghorwyr Billy Mullin a Paul Cunningham a groesawodd waith ar y deisebau ac anogasant Aelodau etholedig i godi ymwybyddiaeth ymhlith cymunedau.

Dywedodd y Cynghorydd Veronica Gay nad oedd pryderon diogelwch ar y ffyrdd yn Saltney a godwyd mewn deiseb a gyflwynwyd yn 2019 wedi cael sylw eto. Byddai Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn ymateb i'r Cynghorydd Gay yn dilyn y cyfarfod.

Wedi iddo gael ei gyflwyno i'r bleidlais, cynhaliwyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

**82. RHEOLIADAU ABSENOLDEB TEULUOL AR GYFER AELODAU AWDURDODAU LLEOL (CYMRU) (DIWYGIO) 2021**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar Reoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2021 a gynyddodd y cyfnod absenoldeb mabwysiadu ar gyfer aelodau awdurdodau lleol o bythefnos i 26 wythnos. Byddai'r newidiadau'n golygu bod yr

un cyfnodau o absenoldeb mamolaeth a mabwysiadwr ar gael i Aelodau prif Gynghorau ac yn darparu ar gyfer trefniadau tebyg ar gyfer absenoldeb mabwysiadwr ag sydd eisoes ar waith ar gyfer absenoldeb mamolaeth.

Fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd, cyflwynodd ac eiliodd y Cynghorwyr Neville Phillips a Michelle Perfect yr argymhelliad. Wrth gael ei gyflwyno i'r bleidlais, cafodd hyn ei gario.

**PENDERFYNIAD:**

Bod y Cyngor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi llunio'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2021, ac yn ymgorffori'r newidiadau yn y rheolau sefydlog ar absenoldeb teuluol o fewn y Cyfansoddiad.

**83. AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni dderbyniwyd yr un ohonynt.

**84. CWESTIYNAU**

Ni dderbyniwyd yr un ohonynt.

**85. HYSBYSIAD O GYNNIG**

Ni dderbyniwyd yr un ohonynt.

**86. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – I YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Cafodd gwahardd y wasg a'r cyhoedd ar gyfer gweddill yr eitem ei gyflwyno a'i eilio gan y Cynghorwyr Chris Bithell ac Ian Dunbar.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod gan yr ystyriwyd bod yr eitem ganlynol wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

*Ar yr adeg hon yn y cyfarfod, roedd yna ohiriad byr cyn yr eitem a oedd yn weddill.*

**87. RECRIWTIO PRIF WEITHREDWR**

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol adroddiad i geisio cymeradwyaeth i recriwtio i rôl y Prif Weithredwr yn dilyn yr hysbysiad diweddar o fwriad i ymddiswyddo a roddwyd gan ddeiliad presennol y swydd, ac i gytuno ar y pecyn a'r broses recriwtio.

Yn dilyn awgrym gan y Cynghorydd Richard Jones, cytunwyd y byddai'r degfed pwynt bwled yn y Disgrifiad Swydd yn cael ei ehangu i adlewyrchu'n gliriach y cafodd cyngor a chymorth eu darparu i Aelodau etholedig mewn ffordd

anwleidyddol. Gyda'r diwygiad hwnnw, cyflwynwyd ac eiliwyd yr argymhellion gan y Cynghorwyr Ian Roberts a Mike Peers. Byddai'r geiriad terfynol yn cael ei rannu gyda'r panel cyfweld.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cytuno ar recriwtio Prif Weithredwr newydd;

(b) Cytuno ar y pecyn tâl arfaethedig, sydd heb newid; a

(c) Chytuno ar y broses recriwtio a'r amserlen arfaethedig, gan ymgorffori'r diwygiad i'r Disgrifiad Swydd.

## 88. AELODAU'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 4pm)

...................................................

**Cadeirydd**